Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
CYFARFOD BLYNYDDOL
MAI 2010

DYDDIAD	Nos Fawrth, 18fed Mai
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU'N BRESENNOL	Meurig Williams, Elwyn Jones, Huw Williams, Nerys Evans, Jason Hunt, Tom Ellis, Gwilym L.Williams, Gwilym V.Thomas, Neal Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cynghorydd Aeron M.Jones, Bethan Williams, clerc Alun Lewis, BIC Innovations

1. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod.
2. **Cyflwyniad Alun Lewis**
   Cafwyd cyflwyniad byr gan Alun Lewis, cwmni Bic Innovations sy'n paratoi ymgynghoriad ar ddyfodol Parc Glynllifon. Nododd fod y parc yn colli arian yn flynyddol, a'u bod hwythau wedi cael cyfarwyddyd i geisio darganfod ffyrdd ymlaen i osgoi'r colledion. Nododd fod tair amcan: 1. dim bwriad gwerthu, 2. bwriadu ei adael yn agored i'r cyhoedd, 3. cael gwared â'r dyledion.
   Nododd fod yr ymgynghoriad yn ei nyddiau cynnar iawn, a bod bwriad i gael penderfyniad ar y safle ddechrau Medi eleni.
   Holodd TE faint mae'r ymgynghoriad yma'n ei gostio – nododd Alun Lewis ei fod yn costio £20,000, gafodd ei ennill trwy dendr agored. Nododd sawl aelod fod cam-weinyddu'r safle gan Gyngor Gwynedd wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at y diffygion presennol.
   Awgrymwyd y dylai'r aelodau ystyried y mater a thrafod eto mis nesa, gan adrodd yn ôl i Alun Lewis gyda'u sylwadau ar gyfer beth fyddent yn ei ddymuno weld yn digwydd ar y safle yn y dyfodol.

3. **Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd am y flwyddyn**
   Etholwyd Elin Evans yn gadeirydd am y flwyddyn, gydag Elwyn Jones yn is-gadeirydd. Yn absenoldeb Elin Evans, fe gadeirwyd gweddill y pwyllgor gan Elwyn Jones.

4. **Ymddiheuriadau**

5. **Datgan Buddiant**

6. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis diwethaf fel rhai cywir.

7. **Materion i'w trafod:**
   a. Lein Bryngwyn – wedi cael sicrhâd gan y Cynulliad fod modd gohirio'r gwaith cychwynnol oherwydd cyfnod nythu, ond bod angen i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2011. Cytunwyd i gael grwp bach o aelodau at ei gilydd i wneud

trefniadau ynglyn â'r prosiect. Cytunodd ElJ, JH, HW a GLW fod ar y grwp. Clerc i drefnu cyfarfod safle a cherdded y lein yn fuan.

b. Ymateb Meirion Williams: polyn ger y grid gwartheg wrth Ael y Bryn; manhole Neuadd Rhosgadfan; drych Ty Nant; dwr gwyneb ffordd Rhandir Mwyn; arwydd Rhostryfan; bwydo ceffylau ger Gadlys. Cynigiodd HW gyfarfod â Steven Owen ar safle'r neuadd i geisio datrys y problemau yno.

c. EE – Dwynfa, angen checio beth ydy'r gweithgaredd sydd yn digwydd yno ar hyn o bryd. Adroddodd AMJ fod y safle yn mynd i gael ei ddefnyddio unwaith eto fel cartref i'r henoed.

d. Nodwyd fod deunyddiau gwastraff tir yn cael ei adael ar safle ger Sain, Llandwrog. Angen checio os oes trwydded i wneud hyn. Adroddodd AMJ fod cynlluniau ar y gweill i gael swyddogion gorfodaeth yno. Nodwyd fod tipio anghyfreithlon yn digwydd yno.

e. JH – parc Tir Glas – rhai o'r offer angen sylw ac angen rhoi mwy o 'wood bark' ar y parc. Clerc i ofyn wrth Wyn wneud y gwaith. Hefyd angen gofyn wrth Wyn beintio cysgodfannau, rhoi sadolin i feinciau ac i'r hysbysfyrddau. Angen i'r clerc ymholi am bris 'bark' a threfnu i gael y gwaith wedi'i wneud yn fuan. Hefyd i holi G.L.Jones am gyngor a phris. Clerc i holi Cyngor Gwynedd am gyngor pellach.

f. ElJ – angen rhoi gwybod i'r heddlu fod defaid crwydro yn broblem ym mhentrefi Rhosgadfan a Rhostryfan. Clerc wedi rhoi gwahoddiad i'r swyddog rhawd cymunedol i'r cyfarfod, ond nid oedd yn bosib iddi fynychu.

g. HW – nododd fod angen camfa newydd rhwng Ffridd Foty a Fron Wydr. Nodwyd na fyddai'n debygol y byddai'r Cyngor Sir yn caniatau camfa bellach. Perchennog yn nodi mai'r Cyngor osodwyd y gamfa wreiddiol ac nad oedd yn fodlon rhoi giât mochyn yma.

8. **Derbyn Adroddiadau:**.

9. **Is-bwyllgorau:**

10 **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	20,992.27
Cyfri Siec:	1,144.17
CYFANSWM	22,136.44

Taliadau:	
Cyflog/costau clerc mis Mai	542.05
Cyllid y Wlad – dim yn daladwy mis yma	
Wyn Williams	80.00
Aelodaeth SLCC	151.00
Derbyniadau	
Praesept mis Ebrill	+ 9850.00

11 **Materion Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
C10A/0138/24/AM
Fron Dirion, Rhostryfan – estyniad a balconi

C10A/0197/24/LL
Llain o dir ger Gwylfa, Dinas – sied amaethyddol

C10/0235/24/LL
Rhwyngddwyryd, Rhos Isaf – estyniad

Eisoes wedi'u caniatau:
Treflys, Rhostryfan – estyniad
Tir ger Bodafon – dau dy pâr

Gohebiaeth:

a. Cynghorau iechyd Cymuned – gwybodaeth
b. Cynulliad – Cymuned ar y Cyd
c. CAB – holiaduron
d. SLCC – llythyr cangen
e. Is-bwyllgor Cymunrodd Elizabeth Hughes
f. Ombwdsman Cymru – copîau o'r côd ymddygiad. Clerc yn awgrymu y dylai pawb gymryd golwg fanwl ar hon– safle wê: fersiwn Gymraeg: http://www.ombudsman-wales.org.uk/uploads/publications/467.pdf
Fersiwn Saesneg:
http://www.ombudsman-wales.org.uk/uploads/publications/466.pdf

12 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. NE – nododd fod coed yn tyfu rhwng beddi ac ati, angen eu torri lawr mor fuan a phosib. Nodwyd fod cwynion wedi dod i law yn nodi nad ydy cyflwr y fynwent cystal ag yr oedd hi.
b. Pont Caer Moel – nodwyd fod coed yn tyfu ar ochr y ffordd.
c. HW – holi pam nad oes arian ar gael i roi llwybr troed i gae chwarae Rhosgadfan, sylwi fod Bontnewydd wedi cael llwybr ychwanegol.
d. MW – yr angen am finiau baw cwn yn Rhosgadfan.
e. TE – nododd fod Cyngor Gwynedd wedi tynnu'r fainc osodwyd gan Gyngor Llanwnda oddi ar Lôn Eifion oherwydd problemau anghymdeithasol.
f. TE – angen arwydd i groesi anifeiliaid ar y ffordd osgoi.
g. GLW – angen torri gwair yn cae chwarae Rhosgadfan. Nododd HW fod y gwaith yn cael ei wneud yr wythnos yma.
h. GVT – cwynion nad ydy bysus Seren Arian yn troi fyny yn Rhosgadfan weithiau, ee tua 11 bore mis diwethaf.
i. GVT – wedi mynychu cyfarfod i drafod y ffordd osgoi arfaethedig. Nodi fod cryn wrthwynebiad i'r llwybrau, ond nad ydy'r cyngor cymuned wedi bod yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40pm